

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN (CYFARFOD ARBENNIG), 14eg o HYDREF 2021 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Theilyngdod Y Maer – Cyngorydd M.Sarnacki (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr B.Owen, W.Roy Owen, W.Tudor Owen, S.Sage

2. Datgan Buddiant Personol

Dim.

3. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

Dim.

4. Noson Tân Gwylt

Cynhaliwyd trafodaeth er mwyn ystyried goblygiadau cynnal Noson Tân Gwylt eleni.

Nododd y Clerc:

- (1) Bod gan y Llewod bryderon mawr cynnal y digwyddiad o ran y niferoedd allasai fynychu a'r lle oedd ar gael i'r dorf ymgynnull. Ni fyddai pellhau cymdeithasol yn bosib.
- (2) Bod canran o achosion Covid-19 newydd yng Nghaernarfon yn gyson uwch na chyfartaledd Gwynedd.
- (3) O ran y ganran efo Covid-19 am bob 100,000 o'r boblogaeth roedd y niferoedd yng Nghaernarfon yr uchaf yng Ngwynedd.
- (4) Bod y gyfran o bobl ifanc efo Covid-19 yn y dref yn uchel ofnadwy, a byddai llawer iawn o'r rhai fyddai'n mynychu'r Noson Tân Gwylt yn bobl ifanc, a rhai ohonynt efo Covid-19 ac o bosib ddim yn dangos symptomau.
- (5) Ymysg y trefi oedd wedi canslo Noson Tân Gwylt oedd Bangor, Amlwch, Biwmares, Caergybi, Dinbych a Ruthun, a byddai cynnal digwyddiad yng Nghaernarfon yn, o bosib, denu torfeydd o'r ardaloedd hyn.
- (6) Roedd yr asesiad risg a dderbyniwyd yn datgan; " Consider asking Gwynedd Council and North Wales Police to close the pub from 5pm until the display ends at 7.30. This will not be a popular decision." Byddai hyn yn anodd iawn i'w orfodi.

- (7) Ei fod wedi derbyn barn broffesiynol yn datgan na fyddai cynnal y digwyddiad yn syriad da gan fod lefelau Covid-19 yn uchel yng Nghaernarfon, ac na fyddai'r dorf yn gallu ymbellhau'n gymdeithasol.
- (8) Fodd bynnag, roedd eithriad wedi ei nodi yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer digwyddiadau nad oedd angen ticedi i'w mynychu a hefyd digwyddiadau oedd efo nifer o leoedd i ddod mewn, ac y byddai'r Noson Tân Gwylt yn ffitio i mewn yn y disgrifiadau yma.

Nododd ymhellach, er nad oedd y Cynghorwyr B.Owen, W.Tudor Owen a S.Sage yn bresennol roeddynt am gofnodi eu bod yn erbyn i'r digwyddiad gymryd lle.

Penderfynwyd (unfrydol):

- (1) Y dylid canslo Noson Tân Gwylt eleni am resymau iechyd a diogelwch, ac am fod lefelau Covid-19 yn uchel iawn yng Nghaernarfon.**
- (2) Gofyn i'r Clerc Iunio Datganiad Wasg fod y digwyddiad yn cael ei ohirio, a'i rannu yn y manau priodol.**
- (3) Y dylid cyflwyno eitem i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Adloniant ar rôl y Llewod o ran trefnu'r Noson Tân Gwylt, fel y gellir cynllunio ar gyfer 2022.**

Gorffennodd y cyfarfod am 6.20 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad